PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

**Gweithdrefnau ar gyfer Ymateb i Adroddiad am Fyfyriwr ar Goll**

## 1 Diben

1.1 Ysgrifennwyd y gweithdrefnau hyn i roi cyfarwyddyd i staff ynglŷn â'r camau priodol i'w cymryd os tybir bod myfyriwr "ar goll"; i sicrhau bod dull cyd-lynol yn cael ei fabwysiadau ledled y sefydliad ac i sicrhau bod y Brifysgol yn cyflawni ei dyletswydd gofal wrth roi gwybod am achosion posibl o fyfyrwyr "coll" heb roi baich diangen ar y gwasanaethau brys.

## 2 Diffiniad o Fyfyriwr Ar Goll

2.1 Nid yw o reidrwydd yn dasg syml i bennu a yw myfyriwr ar goll ai peidio. Nid yw pob myfyriwr yn defnyddio synnwyr cyffredin wrth hysbysu cyd-letywyr neu gyfeillion neu'r Brifysgol am absenoldeb yn ystod y tymor. Yn ystod cyfnodau o asesu, wythnosau darllen neu gyfnod gwyliau gall fod yn anodd pennu a yw myfyriwr yn absennol neu ar goll. Fel arfer ceir esboniadau digon syml pam fod myfyriwr 'ar goll'. Er enghraifft gall fod wedi mynd i ymweld â theulu neu gyfeillion heb ddweud wrth neb; neu fynd ar leoliad gwaith yn rhywle arall heb fod cyd-fyfyrwyr yn gwybod; neu gall fod wedi gadael y Brifysgol.

2.2 Yn achlysurol ceir mwy o reswm dros bryderu am fyfyriwr nad oes neb wedi'i weld ers tro; gall fod yn 'berson coll' go iawn, gall fod wedi'i gadw gan yr heddlu neu'r gwasanaethau mewnfudo, neu fod wedi cael dedfryd gan y llysoedd ac eisoes yn y carchar.

2.3 Mae gan y Brifysgol ddyletswydd gofal cyffredinol i'w myfyrwyr a dylai ymateb yn briodol os credir bod myfyriwr ar goll. Gallai tensiynau godi rhwng yr hyn y mae eraill yn credu y dylai'r Brifysgol ei wneud a'r hyn y dylid ei wneud mewn gwirionedd yn unol â pholisïau a chanllawiau'r Brifysgol. Mae angen ymdrin â'r tensiynau hyn yn ofalus a sensitif, yn enwedig os oes sensitifrwydd diwylliannol neu o fath arall yn rhan o'r sefyllfa.

2.4 Dylai unrhyw weithredu gadw mewn cof y ffactorau risg a nodir yn atodiad 1. Mae gan y drefn Fisa Myfyrwyr i fyfyrwyr rhyngwladol ar Fisa 4-Haen hefyd oblygiadau i'r modd yr ydym yn ymateb, oherwydd mae'n rhaid cael ymateb cyflym yn benodol i osgoi gorfod adrodd i'r UKBA am fethiant myfyriwr i gydymffurfio â gofynion ei fisa.

2.5 Felly at ddibenion y ddogfen hon pennir bod myfyriwr ar goll o'r Brifysgol pan fydd ei absenoldeb yn peri pryder ac o ganlyniad i hynny bod unigolyn neu unigolion yn mynegi pryder. Gall y mynegiant hwn o bryder fod ar ffurf:-

- myfyriwr yn siarad ag aelod o staff y Brifysgol
- aelod o staff yn adrodd am ei bryder wrth aelod arall o staff, yn enwedig yr aelodau hynny o staff sydd â chyfrifoldeb penodol i roi cymorth i fyfyrwyr
- teulu'r myfyriwr yn mynegi pryder
- rhywun y tu allan i'r Brifysgol yn adrodd eu pryder i aelod o gymuned y Brifysgol.

## 3 Ymholiadau Person Coll gan yr Heddlu

3.1 Dylid cyfeirio ymholiadau person coll gan yr heddlu am fyfyrwyr, yn y lle cyntaf, i'r Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd.

## 4 Adroddiadau Trydydd Parti am Fyfyrwyr Ar Goll

4.1 Rhaid i staff sy'n ymdrin ag adroddiadau trydydd parti am fyfyrwyr sydd 'ar goll' ddeall er bod lefel uchel o bryder yn cael ei fynegi o bosibl, efallai nad yw myfyrwyr yn dymuno i bobl eraill (yn enwedig rhieni ac aelodau eraill o'r teulu) wybod beth maen nhw'n ei wneud yn y brifysgol, neu hyd yn oed eu bod yn y brifysgol *hon*. Os nad yw myfyrwyr wedi ymateb i alwadau ffôn ac ati o gartref, yna mae'n bosibl fod ganddynt reswm am hyn ac nid yw o reidrwydd yn fusnes i'r Brifysgol. Gall hyn fod yn anodd ambell waith i rieni neu eraill sylweddoli, a gallai hyn fod yn arbennig yn wir mewn achosion lle ceir disgwyliadau diwylliannol uchel o blant, a lle mae aelodau penodol o'r teulu'n dal sefyllfa o statws sydd yn eu barn nhw yn rhoi'r hawl iddyn nhw gael gwybodaeth bersonol o gofnodion y Brifysgol. Fodd bynnag mae angen i ni fod yn gydymdeimladol i ymholiadau gwirioneddol gan drydydd partïon pryderus, a gellir cyfeirio'r rhain at y Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd.

## 5 Cyswllt â'r Teulu / Perthynas Agosaf

5.1 Er mwyn osgoi peri pryder diangen i deulu'r myfyriwr, yn y mwyafrif o amgylchiadau nid oes angen cysylltu â nhw hyd nes y bydd ymholiadau cychwynnol wedi'u cwblhau a bod cymaint o eglurder â phosibl am absenoldeb y myfyriwr wedi'i sicrhau. Fodd bynnag mae'n bwysig cadw rhywfaint o hyblygrwydd gan ddibynnu ar yr amgylchiadau. Dylai'r sawl sy'n ymwneud â'r achos geisio'r dull mwyaf sensitif o ganfod a yw'r myfyriwr wedi dychwelyd adref heb hysbysu'r Brifysgol, ond heb achosi pryder diangen i'r teulu, a chan ystyried yr holl amgylchiadau.

## 6 Cyfathrebu ar draws y Sefydliad

6.1 Y ffordd orau i'r Brifysgol gydlynu unrhyw ymateb angenrheidiol i adroddiad am fyfyriwr 'coll' yw sianelu'r holl wybodaeth trwy'r Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd, a fydd yn gallu cynnwys adrannau eraill, fel bo'n briodol, er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn gweithredu yn y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon i fynd i'r afael â'r mater.

6.2 O ganlyniad, dylai unrhyw aelod o staff sy'n amau y gallai myfyriwr fod ar goll, neu sy'n derbyn adroddiad am fyfyriwr sydd wedi mynd ar goll, gasglu cymaint â phosibl o'r wybodaeth gychwynnol a nodir yn adrannau 9 a 10 isod a hysbysu'r Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd cyn gynted â phosibl ac fel arfer o fewn 24 awr. (Lle bydd angen gweithredu ar frys y tu allan i oriau swyddfa arferol, rhif ffôn brys y Brifysgol yw 01970 622900).

6.3 Bydd y Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd yn ymgynghori â'r cydweithwyr priodol i gasglu rhagor o wybodaeth yn ôl yr angen ac i asesu risg.

## 7 Diogelu Data a Chyfrinachedd

7.1 Mae prosesu data personol am fyfyrwyr yn ddarostyngedig i delerau ac amodau Deddf Diogelu Data 1998. Yn ogystal â hyn, ceir rhai grwpiau proffesiynol yn y Brifysgol sy'n rhwym i God Moeseg eu proffesiwn e.e. Cwnselwyr Myfyrwyr.

7.2 Er bod disgwyliad clir bod datgeliadau personol yn cael eu trin yn gyfrinachol, os credir bod myfyriwr ar goll, ac o bosibl mewn perygl, dylid rhannu unrhyw wybodaeth a allai fod yn berthnasol i'r ymchwiliad â staff y Brifysgol. Ond, rhaid i bawb sy'n derbyn yr wybodaeth fod yn ymwybodol bod angen cynnal cyfrinachedd lle bo'n bosibl.

7.3 Wrth ymateb i ddigwyddiadau critigol a materion perthnasol bydd y Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd yn ceisio ac yn rhannu gwybodaeth fel bo'r angen yn unol â Gweithdrefnau'r Brifysgol ar Gyfrinachedd.

## 8 Cyngor am y camau nesaf

8.1 Gall unrhyw aelod o staff sy'n pryderu y gallai myfyriwr fod ar goll mewn gwirionedd a pha gamau y gallai fod eu hangen, drafod hyn yn anffurfiol gyda'r Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd cyn mynd â'r mater ymhellach.

## 9 Gweithredu Cychwynnol

9.1 Gallai fod ansicrwydd o hyd a yw'r myfyriwr ar goll ai peidio a'r cam cyntaf yw casglu a chydlynu cymaint o wybodaeth â phosibl i egluro'r sefyllfa.

9.3 Mewn llawer o achosion bydd y cam cyntaf yn cael ei gymryd yn yr Adran Academaidd neu'r Neuadd Breswyl. Pan fydd angen ehangu'r ymchwiliad, h.y. pan nad oes modd canfod nad yw'r myfyriwr ar goll, mae'n synhwyrol trefnu bod un person yn y Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd yn cydlynu'r gweithgaredd ac osgoi dyblygu ymdrech a dryswch posibl. Bydd yr unigolyn hwn yn sicrhau bod cyswllt clos a chydweithio rhwng pawb sy'n rhan o'r gwaith, boed yn staff academaidd, staff neuaddau preswyl, staff cymorth neu fyfyrwyr.

9.4 Cyn cymryd unrhyw gamau, mae'n synhwyrol i'r sawl sy'n credu y gallai myfyriwr fod ar goll holi a yw'r myfyriwr yn dal yn gofrestredig yn y Brifysgol. Gellir gwneud hyn yn uniongyrchol drwy AStRA neu wirio gyda'r Gofrestrfa Academaidd. Os yw'r cofnod yn dangos bod y myfyriwr yn gofrestredig mae'n dal yn werth gwirio, lle bo'n ymarferol, nad yw wedi cyflwyno cais i dynnu'n ôl sydd ar waith ond nad yw eto wedi cyrraedd cofnod y myfyriwr. Gall hyn helpu i osgoi gwaith diangen i geisio chwilio am fyfyriwr sydd wedi gadael y Brifysgol.

9.5 I sicrhau gweithredu cyflym dylid cyfeirio ymholiadau fel a ganlyn:

**Myfyrwyr Uwchraddedig:** Y Gofrestrfa Academaidd (estyniad 2272/2274) a'r Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd (estyniad 1761/2087)

**Myfyrwyr Israddedig:** Y Gofrestrfa Academaidd (estyniad 8515/2787) a'r Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd (estyniad 1761/2087)

## 10 Casglu Rhagor o Wybodaeth

10.1 I helpu i gloriannu unrhyw ymateb angenrheidiol i fyfyriwr sydd 'ar goll' mae'n ddefnyddiol sicrhau bod gwybodaeth allweddol ar gael cyn gynted â phosibl. Felly dylai aelod o staff sy'n amau bod myfyriwr ar goll neu unrhyw un sy'n derbyn adroddiad gan fyfyrwyr am unigolyn sydd o bosibl ar goll, geisio canfod cymaint â phosibl o'r wybodaeth ganlynol:

- enw llawn y myfyriwr, rhif myfyriwr, rhaglen, blwyddyn neu unrhyw ddata a fyddai'n galluogi adnabod y myfyriwr yn ddiamwys;
- cyfeiriad cyfredol y myfyriwr (yn ystod y tymor a pharhaol) ac unrhyw ffordd o gysylltu â'r myfyriwr e.e. cyfeiriad e-bost gorau, rhif ffôn symudol, llinell tir ac ati;
- lle cafodd ei weld/gweld ddiwethaf a chan bwy;
- pryd y gwnaeth y myfyriwr fewngofnodi i rwydwaith y Brifysgol ddiwethaf - (gall y Gwasanaethau Gwybodaeth helpu â hyn).
- cyflwr meddwl y myfyriwr y tro diwethaf y cafodd ei weld/gweld, ynghyd ag unrhyw reswm pam y gallai'r myfyriwr 'coll' fod mewn perygl neu unrhyw reswm arall dros bryderu am ei ddiogelwch neu les;
- a oes unrhyw un yn gwybod neu'n amau bod y myfyriwr gyda rhywun arall (gan gynnwys enw(au), manylion cyswllt ac ati) ar yr adeg pan aeth 'ar goll';
- a yw'r absenoldeb yn nodweddiadol neu'n anghyffredin;
- manylion y camau sydd eisoes wedi'u cymryd i geisio cysylltu â'r myfyriwr 'coll' ynghyd ag unrhyw ganlyniadau;
- enwau a manylion cyswllt y sawl sy'n hysbysu bod y myfyriwr ar goll;
- unrhyw wybodaeth arall y teimlir y gallai fod o gymorth wrth leoli'r myfyriwr neu ganfod pam nad yw wedi'i weld ers tro.

## 11 Asesu Risg

11.1 Ar ôl ymgynghori â chydweithwyr, bydd y Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd yn ymgymryd ag asesiad risg yn seiliedig ar y ffactorau a nodir yn Atodiad 1:

## 12 Hysbysu am y Myfyriwr sydd ar Goll

12.1 Lle bo ymchwiliadau pellach yn cadarnhau amheuon bod myfyriwr ar goll mewn gwirionedd (ac yn enwedig os oes pryderon ei fod o bosibl yn fregus - e.e. mae statws iechyd y myfyriwr yn peri gofid) yna bydd Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd neu ei enwebai, ar ôl ymgynghori fel arfer â'r Dirprwy Is-Ganghellor perthnasol, yn hysbysu naill ai perthynas agosaf cofnodedig y myfyriwr neu'r heddlu.

12.2 Bydd unrhyw gyswllt â'r heddlu wedi hynny fel arfer yn cael ei gynnal gan Bennaeth y Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd neu ei enwebai. Rhaid sianelu unrhyw ymholiadau gan y cyfryngau drwy'r Tîm Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus.

## 13 Y Tu Allan i Oriau Swyddfa

13.1 Y tu allan i oriau swyddfa arferol efallai na fydd hi bob amser yn bosibl casglu'r wybodaeth angenrheidiol i benderfynu a ddylid rhoi gwybod i'r Heddlu am unrhyw bryderon. Fodd bynnag, ni ddylai hyn atal unrhyw weithredu ac os mynegwyd pryderon bod myfyriwr 'ar goll' o bosibl, dylid cysylltu â Phennaeth y Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd. Dylai staff gysylltu â rhif 24 awr y Brifysgol, sef 01970 622900 a bydd rhywun yn trefnu i Bennaeth y Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd gysylltu â'r aelod o staff sy'n mynegi pryder.

## 14 Gweithredu pan Ganfyddir Myfyriwr sydd Ar Goll

14.1 Mae'n hynod o anarferol i fyfyrwyr sydd "ar goll" beidio ag ailymddangos ar ryw bwynt. Bydd y Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd yn rhoi gwybod i'r adrannau/staff a hysbyswyd dan adran 3 (uchod) nad yw'r myfyriwr bellach ar goll.

## 15 Cymorth i Fyfyrwyr a Chydweithwyr

15.1 Gan ddibynnu ar amgylchiadau diflaniad myfyriwr a'u swyddogaeth yn y broses o adrodd ar y mater, gallai bod angen cymorth ar eraill (er enghraifft cyd-fyfyrwyr neu diwtoriaid) ynglŷn â'u pryderon a'u teimladau eu hunain, naill ai ar unwaith neu ryw bryd yn y dyfodol. Gall y Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd roi cyngor am ffynonellau priodol o gymorth o'r fath.

# Atodiad 1

## Rhestr wirio ar gyfer asesu risg

- a yw'r myfyriwr yn dioddef o unrhyw fath o gyflwr corfforol neu iechyd meddwl sy'n golygu y dylid ei ystyried yn risg uchel?
- a oes ar y myfyriwr angen meddyginiaeth neu driniaeth feddygol?
- a yw ei absenoldeb yn newid sylweddol yn mhatrwm sefydledig ei ymddygiad, na ellir ei esbonio, ac sy'n rhoi rheswm i feddwl y gallai niwed ddigwydd i'r myfyriwr?
- ydy'r myfyriwr yn agored i niwed o ganlyniad i oedran, gwendid neu ffactor arall?
- a oes unrhyw un yn gwybod am drafferthion â chyffuriau/alcohol/arian?
- ydy'r myfyriwr wedi datgan bwriad i'w niweidio ei hun/eraill?
- ydy'r myfyriwr wedi bod yn rhan o ddigwyddiadau hiliol/homoffobig/bwlian/treisiol yn ddiweddar neu a ystyrir bod y myfyriwr yn wrthrych trosedd arfaethedig e.e. cipio?
- ydy'r myfyriwr wedi dioddef trosedd, yn enwedig aflonyddu, bwlian neu drais?
- ydy'r myfyriwr yn cymryd rhan mewn unrhyw chwaraeon neu weithgareddau peryglus?
- ydy'r myfyriwr wedi dioddef unrhyw anafiadau'n ddiweddar, yn enwedig anafiadau i'r pen?
- a oes unrhyw amodau tywydd gwael a fyddai'n cynyddu'r risg i iechyd yn ddifrifol?
- a fu'r myfyriwr ar goll yn y gorffennol?
- a oes unrhyw un yn gwybod am drafferthion teuluol/perthynas?
- faint o amser sydd wedi mynd ers i unrhyw aelod o gymuned y Brifysgol weld y myfyriwr?
- ydy'r myfyriwr fel arfer yn preswylio dramor ac wedi mynd ar goll yn y DU?
- ydy'r myfyriwr fel arfer yn preswylio yn y DU ac wedi mynd ar goll dramor?
- a oes gan y myfyriwr y gallu i ryngweithio'n ddiogel ag eraill mewn amgylchedd anadnabyddus?
- a oes unrhyw arwyddion bod y myfyriwr wedi gwneud paratoadau i fod yn absennol?
- a oes unrhyw un yn gwybod bod gan y myfyriwr berthynas anodd â'i deulu/perthnasau agos eraill e.e. gwrthdaro neu gam-drin?

## Atodiad 2

**Yr Adrannau y dylai'r Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd roi gwybod iddynt efallai am Fyfyriwr 'Coll' Posibl**

- Swyddfa'r Is-Ganghellor
- Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus
- Gwasanaethau'r Campws – Diogelwch a Llety
- Y Swyddfa Ryngwladol
- Adran Academaidd y Myfyriwr
- Undeb y Myfyrwyr
- Y Gofrestrfa Academaidd

| | | | |
|---|---|---|---|
| Fersiwn: | 2 | Dyddiad Cyhoeddi: | 24.2.16 |
| Rheswm dros ddiweddaru: | Ailstrwythuro'r ddogfen a newidiadau bach i'r cynnwys | | |
| Cymeradwywyd: | Pwyllgor Cymorth i Fyfyrwyr | Yn Effeithiol o: | 24.2.16 |
| Rhanddeiliaid eraill: | Y Gofrestrfa Academaidd, Cydymffurfiaeth Gwybodaeth, Gwasanaethau Gwybodaeth | | |
| Cyswllt: | Caryl Davies, Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd ccd@aber.ac.uk | | |